Mae clybiau'n cefnogi chwarae a chymdeithasu ar gyfer nifer uchel o blant ag amrywiaeth o anghenion lles a chymorth. Roedd gan ymatebwyr 1,470 o blant (cynnydd o 1,249 yn 2023) ag anghenion ychwanegol yn eu lleoliadau (allosod y gellid amcangyfrif hyn yn 4,083 o blant). Gwyddom y manteision enfawr y mae hyn yn eu rhoi i blant a theuluoedd bod heriau yn dod gyda hyn hefyd. Mae angen cefnogaeth ddigonol i Glybiau ddarparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a mwy o gydnabyddiaeth o sut mae Clybiau yn cefnogi chwarae a lles plant.

Clubs are supporting play and socialisation for a high number of children with a variety of wellbeing and support needs. Respondents had 1,470 children (an increase from 1,249 in 2023) with additional needs in their settings (extrapolated this could be estimated at 4,083 children). We know the huge benefits this brings to children and families that there are challenges that come with this too. There needs to be sufficient support for Clubs to provide for children with additional needs and a greater recognition of how Clubs support children's play and wellbeing.

"Byddai darparu staff ychwanegol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn yn rhoi'r Clwb dan bwysau ariannol"

"Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio 3ydd aelod o staff sydd â phrofiad mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i wella ein cefnogaeth i blant Niwroamrywiol a'r rhai ag anghenion ymddygiadol eraill."

PLANT SYDD AG ANGHENION
YCHWANEGOL YN EU LLEOLIAD
| CHILDREN WITH ADDITIONAL NEEDS IN
THEIR SETTING

2023

1249

2024

1470

"To provide extra staff to address these needs, would put the Club under financial pressure"

We are currently recruiting a 3rd staff member with experience in ALN to improve our support of Neurodiverse children and those with other behavioural needs."

Daeth ein harolwg a'n hymgyngoriad â 23 o leoliadau Gofal Plant All-Ysgol ym mis Hydref 2023 (ymateb i'r ymgynghoriad ar fynediad plant anabl i addysg a gofal plant) i'r casgliad mai annigonol o staff, cyllid, hyfforddiant a chyfathrebu yw'r prif heriau a wynebier gan Glybiau Gofal Plant All-Ysgol sy'n cyfrannu at y rhwystrau i gael mynediad i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol i blant ag anghenion ychwanegol.

Our survey and consultation with 23 Out of School Childcare settings in October 2023 (Disabled children and young people's access to education and childcare consultation response) concluded that insufficient staff, funding, training and communication are the main challenges faced by Out of School Childcare Clubs contributing to the barriers to accessing Out of School Childcare Clubs for children with additional needs.


ANGHENION PLANT AM GEFNOGAETH/LLESIANT | CHILDREN'S SUPPORT/WELLBEING NEEDS

22

Yn ogystal, dywedodd Clybiau eu bod yn cefnogi plant ag ystod o anghenion cymorth/lles, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi cynyddu ers y llynedd (gweler y ffeithlun cyfatebol). Roedd y clybiau gan amlaf yn cefnogi plant a oedd yn cael anhawster rheoli emosiynau (68%), ac yna'r rhai â heriau lleferydd ac iaith (63%), anhawster gwneud ffrindiau newydd/sgiliau cymdeithasol eraill (48%), lefelau niwroamrywiaeth cynyddol 48%), annibyniaeth wael (46%), pryder neu hwyliau isel (43%), hunanhyder/barch isel (41%), ffitrwydd corfforol gwael (21%), ymddygiadau niweidiol e.e. cydymffurfio â normau rhywedd neu ymddygiad hiliol (11%) Roedd cyflyrau eraill yn cynnwys Awtistiaeth, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a chyflyrau meddygol cymhleth.

Mae chwarae digymell, creadigrwydd a chymdeithasu, sy'n cael eu hannog yn weithredol mewn clybiau, yn dod â lluo o fanteision i blant, gan gynnwys eu datblygiad seicolegol, cymdeithasol a gwybyddol ac effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles. Mae chwarae hefyd yn cefnogi cymdeithasoli, gwydnwch, iechyd a lles, dysgu a datblygiad a hapusrwydd (Chwarae Cymru). Fe wnaeth [Canlyniadau ein Harolwg Rhieni yn 2022](#) atgyfnerthu'r hyn roedden ni'n ei wybod yn barod – wrth fynychu clybiau, roedd plant yn chwarae mwy, yn hapusach ac yn fwy hyderus, gyda sgiliau cymdeithasol gwell, yn gwneud ffrindiau ac yn fwy cyfforddus fyth yn yr ysgol.

In addition, Clubs said they support children with a range of support/wellbeing needs, most of which had increased from last year (see the corresponding infographic). Clubs most commonly supported children who had difficulty managing emotions (68%), followed by those with speech and language challenges (63%), difficulty making new friends/other social skills (48%), increasing levels of neurodiversity 48%), poor independence (46%), anxiety or low mood (43%), low self-confidence/esteem (41%), poor physical fitness (21%), harmful behaviours e.g. conforming to gender norms or racist behaviours (11%) Other conditions included Autism, ALN, and complex medical conditions.



Spontaneous play, creativity and socialization, actively encouraged in clubs, has a multitude of benefits for children, including their psychological, social and cognitive development and positive impact on mental health and wellbeing. Playing also supports socialisation, resilience, health and wellbeing, learning and development and happiness (Play Wales). [Results of our National Parents Survey 2022](#) consolidated what we already knew – that in attending clubs, children played more, were happier and more confident, had better social skills, made friends and were even more comfortable in school.



YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG

Mae lleoliadau'n dangos ymrwymiad cryf i Ddatblygiad Proffesiynol i wella hygyrchedd eu lleoliadau. Mae dros 90% o glybiau yn defnyddio dulliau lleoliad cyfan o ddefnyddio'r Gymraeg ac yn datblygu arferion gwrth-hiliaeth yn eu lleoliadau.

Roedd 57% o ymatebwyr yr arolwg o leoliadau Saesneg, 22% o leoliadau Cymraeg ac 17% o leoliadau dwyieithog. Dywedodd 56% eu bod yn hybu'r iaith a'r diwylliant Gymraego fewn eu lleoliad trwy e.e. y Cynnig Rhagweithiol, yn defnyddio mwy o Gymraeg, yn ymgymryd â'r Addewid Cymraeg, 32% yn gweithio tuag at hyn, a 7% eisiau mwy o wybodaeth.

Dywedodd 57% o ymatebwyr eu bod yn ystyried gwrth-hiliaeth gyda dull lleoliad cyfan e.e. cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, ymarfer myfyriol, manau chwarae ac adnoddau, recriwtio, polisïau a gweithio mewn partneriaeth, gyda 38% pellach yn gweithio tuag at hynny. Hoffai 46% gael mwy o wybodaeth/cymorth i gynnal archwiliad i wrth-hiliaeth yn eu lleoliad.

WELSH LANGUAGE AND CULTURE



Settings show a strong commitment to Professional Development to improve the accessibility of their settings. There are over 90% of clubs taking whole setting approaches to using Welsh and developing anti-racism practices in their settings.

57% of the survey respondents were from English language settings, 22% from Welsh and 17% from bilingual settings. 56% said that they promoted the Welsh language and culture within their setting through e.g. the Active Offer, using more Welsh, undertaking The Welsh Promise, with 32% working towards this and 7% wanting more information.

57% of respondents said that they considered anti-racism with a whole setting approach e.g. ongoing professional development opportunities, reflective practice, play spaces and resources, recruitment, policies and partnership working, with a further 38% working towards. 46% would like more information/support to undertake an anti-racism audit in their setting.





Y mae'n amlwg bod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn her sylweddol ac mae Clybiau'n parhau i gau (ochr yn ochr â gwasanaethau newydd yn agor). Mae nifer net y lleoliadau a chlybiau yn dal i ostwng ac mae'r effaith barhaus ar y sector yn bryder sylweddol. Dywedodd 80% o ymatebwyr fod angen cymorth ariannol ar y sector.

"Bydd y rhent yn codi ym mis Ebrill a hefyd bydd cyflogau staff yn codi, mae hyn yn llethol i fusnesau bach ac yn effeithio ar glybiau ym mhobman."

Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn cyflogi dros 5000 o bobl leol, fel y gall rhieni/gofalwyr 45,000+ o blant weithio/hyfforddi, yn enwedig teuluoedd incwm isel/rhieni unigol, gweithwyr allweddol ac eraill na allant weithio gartref (rolau â chyflog is yn aml). Mae clybiau'n cefnogi hawl plant i chwarae a lles.

Yn awr ym mis Rhagfyr 2024, rydym yn cefnogi: 1,515 o Glybiau, 841 o leoliadau, 45,197 o leoedd: gostyngiad net o 20 clwb /9 lleoliad/1,316 o leoedd yn yr un cyfnod y llynedd. Rydym yn parhau i gefnogi clybiau newydd i agor, ond gyda thuedd barhaus ar i lawr yn niferoedd y Clybiau, mae angen gweithredu i sicrhau bod y sector yn cael ei gynnal i gefnogi plant, teuluoedd a'r economi ledled Cymru.

"Er bod nifer y plant sy'n mynychu yn aros yr un fath, mae'r costau trosben wedi cynyddu. Er inni efallai gael ein hystyried yn gynaliadwy, mae'r arian a delir allan yn llawer mwy."

"... rydym eisoes wedi cau'r clwb oherwydd prinder staff, llai o blant yn mynychu a rhieni nad ydynt yn talu eu biliau."

It is clear that financial sustainability continues to be a significant challenge and Clubs continue to close (alongside new services opening). The net number of settings and clubs is still decreasing and continued impact on the sector is a significant concern. 80% of respondents said the sector needs support with funding.

"The rent will go up in April and also the staff wages will go up, this is crippling for small businesses and will affect clubs everywhere."

Out of School Childcare Clubs are part of the foundational economy. Clubs employ over 5000 local people, so that parents/carers of 45,000+ children can work/train, particularly low income/lone parent families, key workers and others who cannot work at home (often lower paid roles). Clubs support children's right to play and wellbeing.

As at December 2024, we are supporting: 1,515 Clubs, 841 settings, 45,197 places: a net decrease of 20 clubs /9 settings/1,316 places in the same period last year. We continue to support new clubs to open, but with a continuing downward trend in Club numbers, action is needed to ensure the sector is sustained to support children, families and the economy across Wales.


"Even though the amount of children attending is the same, possibly more, the overheads have increased. We may be considered to be sustainable but the outgoings are a lot more."

"... we have already closed the club because of lack of staff, fewer children attending and parents not paying their bills."



Mae cyfran uchel (40%) o Glybiau Gwyliau yn arbennig nad ydynt/ddim yn sicr a ydynt yn gynaliadwy yn ariannol a 30% o glybiau adeg-tymor. Mae gan Glybiau Gwyliau gostau rhent a staffio uchel i'w talu dros gyfnod byr o amser ac maent yn cystadlu â gweithgareddau plant heb eu rheoleiddio sy'n dod o fewn y Gorchymyn Eithriadau. Mae'n hollbwysig bod lleoliadau ac eraill yn hyrwyddo buddion cofrestru gydag AGC megis ansawdd, fforddiadwyedd, mwy o hyblygrwydd, cymarebau oedolion:plant llym, staff sydd wedi'u gwirio, eu hyfforddi a'u hyfforddi'n addas a pholisïau cynhwysfawr i ddiogelu plant.

Yn ogystal, gellir defnyddio cyllid ar gyfer lles/atal llwgu yn ystod y gwyliau (e.e. Prosiect Gwyliau Playworks/SHEP) ac unrhyw fentrau eraill sy'n dod i'r amlwg i ariannu lleoedd yn narpariaeth Clwb Gwyliau sy'n gofrestredig ag AGC. Mae hyn yn negyddu'r angen am ymdrech/capasiti ar wahân, y gellir ei hwyluso gan staff cymwys a hyfforddedig er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i blant heb stigma, a bydd yn lleihau'r effaith ar Glybiau cofrestredig AGC.



A high proportion (40%) of Holiday Clubs in particular are not/unsure if they are financially sustainable and 30% of term time clubs. Holiday Clubs have high rent and staffing costs to meet over a short period of time and compete with unregulated children's activities that fall within the Exceptions Order. It is imperative that settings and others promote the benefits of CIW registration such as quality, affordability, greater flexibility, strict adult:child ratios, suitably checked, trained and qualified staff and comprehensive policies to safeguard children.

In addition, funding for wellbeing/holiday hunger (e.g. The Playworks Holiday Project/SHEP) and any other emerging initiatives can be used fund places in CIW registered Holiday Club provision. This negates the need for separate effort/capacity, can be facilitated by qualified and trained staff for maximum benefit to children without stigma, and will minimize the impact on CIW registered Clubs.

"Rydym yn ceisio cynnig gofal plant hyblyg o ansawdd uchel am bris cystadleuol felly mae'r gwasanaeth ar gael i bob teulu. Mae teuluoedd yn cael trafferth gyda chostau byw. Rydym yn sylwi bod rhieni/gofalwyr yn codi plant yn gynt ac yn gofyn i aelodau'r teulu gynorthwyo yn ystod gwyliau'r ysgol. Gofynnodd ein rhieni am dalu fesul awr ac nid y sesiwn yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol. Bydd rhai rhieni yn archebu'u lle ond ddim yn dod, a ddim am dalu."

"We are trying to offer high quality, flexible childcare at a competitive rate so the service is available to all families. Families are struggling with the cost of living. We are noticing that parents/carers are picking up children earlier and asking family members to assist during school holidays. Our parents requested paying by the hour and not the session especially during school holidays. Some parents will book not turn up and don't want to pay."

Mae cynnydd mewn costau byw, codiadau rhent a phrinder staff yn arwain yn gynyddol i glybiau ystyried codi ffioedd (50%), cau elfennau o'r gwasanaeth (10%), lleihau oriau agor (17%), a dadgofrestru (10%). Mae'r canrannau hyn yn parhau'n debyg i'r llynedd, er bod canran y Clybiau sy'n ystyried cau elfennau o'r gwasanaeth wedi gostwng (10% o gymharu â 21% y llynedd), ynghyd â'r ganran sy'n codi eu ffioedd (50% o gymharu â 69%). Pe bai 7% o Glybiau fel y nodwyd yn cau, byddai hyn yn cynrychioli 59 o leoliadau/106 o glybiau.

Cost of living increases, rent hikes and staffing shortages are increasingly leading clubs to consider increasing fees (50%), closing elements of the service (10%), reducing opening times (17%), and deregistration (10%). These percentages remain similar to last year, although the percentage of Clubs considering closing elements of the service has reduced (10% compared to 21% last year), along with the percentage increasing fees (50% compared to 69%). If 7% of Clubs as indicated were to close, this would represent 59 settings/106 Clubs.



Am resymau cynaliadwyedd, mae clybiau'n ystyried y canlynol | Due to sustainability reasons, clubs are considering

% y clybiau a ymatebodd | % of clubs responding

2023

2024

7%



Cau'r Lleoliad All-Ysgol | Closing the Out of School Childcare Setting

7%

21%



Cau elfennau o'r gwasanaeth | Closing elements of the service

10%

18%



Lleihau'r amserau agor | Reducing opening times

17%

69%



Codi'r ffioedd | Increasing fees

50%

10%



Dadgofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru | De-registration with Care Inspectorate Wales

10%



ARGYMHELLION | RECOMMENDATIONS



01. Mae costau byw a chostau ynghylch gweithlu uchel, ac mae ein hargymhellion yn parhau i fod yn debyg o ganlyniad. Mae'r data a'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn amlygu'r angen am:

Parhad yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant trwy gyfleoedd ariannu priodol a hygyrch (gan gynnwys ffrydiau cyllid refeniw), i gefnogi costau hanfodol i'w talu tra bod ffioedd yn parhau i fod mor fforddiadwy â phosibl. Dylid dynodi'r rhain yn benodol o fewn y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer y sector Gofal Plant All-Ysgol.

01. The high cost of living and workforce challenges prevail, and our recommendations consequently remain similar. The data and findings presented above highlight the need for:

Continued commitment from Welsh Government to support the sustainability of the childcare sector through appropriate and accessible funding opportunities (including revenue funding streams), to support essential costs to be covered whilst fees remain as affordable as possible. These should be specifically designated within the Children and Communities Grant for the Out of School Childcare sector.



02. Hyrwyddo'r defnydd o Glybiau Gofal Plant All-Ysgol sefydledig ac o ansawdd uchel sydd wedi'u cofrestru ag AGC i gefnogi mentrau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg (e.e. Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol/Prosiect Gwyliau Playworks) lle bynnag y bo modd. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd y sector. Sicrhau bod y sector yn ymwneud o leiaf â lleihau unrhyw effaith a gaiff mentrau ar gynaliadwyedd.

02. Promote the use of established, high quality, CIW registered Out of School Childcare Clubs to support current and emerging initiatives (e.g. School Holiday Enrichment Programme/Playworks Holiday Project) wherever possible. This will also support the sector's sustainability. Ensure the sector is at least involved in minimizing any impact of initiatives on sustainability.



03. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o holl adrannau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wella mynediad i leoliadau cymunedol, gan sicrhau rhent a threfniadau fforddiadwy a hyblyg. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach i ysgolion/adeiladau cymunedol a ddefnyddir yn rhannol gan ofal plant.

03. Decision makers from all Welsh Government and local authority departments should collaborate to improve access to community-based venues, ensuring affordable and flexible rent and arrangements. Welsh Government should explore extending the Small Business Rate Relief Scheme to schools/community buildings used in part by childcare.



ARGYMHELLION | RECOMMENDATIONS



04. Ymrwymiad hirdymor i gyllid ar gyfer cymwysterau a mentrau Gwaith Chwarae i gynnal recriwtio a chadw, cefnogi cofrestrriad ac ansawdd a helpu i gwrdd â rhestrau aros ac anghenion teuluoedd.

04. Long term commitment to funding for Playwork qualifications and initiatives to sustain recruitment and retention, support registration and quality and help meet waiting lists and the needs of families.




05. Cymorth busnes penodol ac wedi'i deilwra gan Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant gwybodus ledled Cymru i fynd i'r afael â'r heriau.

05. Tailored and specific business support from knowledgeable Childcare Business Development Officers across Wales to address challenges.



06. Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn creu Cymru lle mae plant yn chwarae ac yn ffynnu a chymunedau'n ffynnu, gan helpu teuluoedd i weithio a chryfhau'r economi leol. Mae hyrwyddo a chydabod y sector Gofal Plant All-Ysgol a Gweithwyr Chwarae yn allweddol i amddiffyn hawl plant i chwarae, gan gefnogi eu hiechyd meddwl, eu datblygiad a'u lles.

06. Out of School Childcare Clubs create a Wales where children play and thrive and communities prosper, helping families to work and strengthening the local economy. Promotion and recognition of the Out of School Childcare sector and Playworkers is key to protecting children's right to play, supporting their mental health, development and wellbeing.



07. Digon o gefnogaeth i Glybiau ddarparu cyfleoedd gofal, chwarae a chymdeithasu **mwya cyfartal**, wrth iddynt ymateb i nifer cynyddol o blant ag ystod o anghenion dysgu, lles a chefnogaeth ychwanegol.

07. Sufficient support for Clubs to provide **more equal** care, play and socialisation opportunities, as they respond to an increasing number of children with a range of additional learning, wellbeing and support needs.



08. Gwaith parhaus i hyrwyddo manteision cofrestru gydag AGC, Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant i deuluoedd a lleoliadau, gan helpu teuluoedd i liniaru heriau costau byw uchel a gwella cynaliadwyedd lleoliadau.

08. Ongoing work to promote the benefits of registering with CIW, for Tax-Free Childcare and the Childcare Offer to families and settings, helping families mitigate the challenges of the high cost-of-living and improving the sustainability of settings.

DYFYNIADAU I'W NODI | NOTABLE QUOTES

Cynaliadwyedd

- Rwy'n teimlo y dylai fod cyllid i rieni ar gyfer clybiau ar ôl ysgol oherwydd erbyn hyn gall rhieni gael 2/3 o blant am 2/3 noson yr wythnos am rhwng 2-6 mlynedd sy'n llawer o arian i dalu am glwb ar ôl ysgol.*
- Bydd y rhent yn codi ym mis Ebrill a hefyd bydd cyflogau staff yn codi, mae hyn yn llethol i fusnesau bach ac yn effeithio ar glybiau ym mhobman.*
- Rydym eisoes wedi cau'r clwb oherwydd diffyg staff, llai o blant yn mynychu a rhieni ddim yn talu eu biliau.*
- Ers 2020 mae fy lleoliad wedi gweld cynnydd mawr yn y plant sy'n mynychu.*
- Er bod nifer y plant sy'n mynychu'r un peth, mwy o bosib, mae'r gorbenion wedi cynyddu. Efallai ein bod yn cael ein hystyried yn gynaliadwy ond mae'r gwariant yn llawer mwy.*
- Mae mwy o gyllid ar gyfer y sector yn hanfodol.*
- Mae'n anodd ar y funud ceisio cael dau ben llinyn ynghyd.*
- Colled rhagamcanol o £10,000 oherwydd y cynnig gofal plant.*
- ...Mae teuluoedd yn cael trafferth gyda chostau byw. Rydym yn sylwi bod rhieni/gofalwyr yn codi plant yn gynt ac yn gofyn i aelodau'r teulu gynorthwyo yn ystod gwyliau ysgol. Gofynnodd ein rhieni am dalu fesul awr ac nid y sesiwn yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol. Bydd rhai rhieni'n archebu lle, peidio â bod yn bresennol ac yna ddim am dalu.*

Sustainability

- I feel there should be funding for parents for after school clubs as by this time parent can have 2/3 children for 2/3 nights per week for between 2-6 years which is lot of money to pay out for an after school club.*
- The rent will go up in April and also the staff wages will go up, this is crippling for small businesses and will affect clubs everywhere.*
- We have already closed the club because of lack of staff, fewer children attending and parents not paying their bills.*
- Since 2020 my setting has seen a big increase in children attending.*
- Even though the amount of children attending is the same, possibly more, the overheads have increased. We may be considered to be sustainable but the outgoings are a lot more.*
- Increased funding for the sector is essential.*
- It's hard at the minute trying to make ends meet.*
- Projective loss of £10,000 due to childcare offer.*
- ...Families are struggling with the cost of living. We are noticing that parents/carers are picking up children earlier and asking family members to assist during school holidays. Our parents requested paying by the hour and not the session especially during school holidays. Some parents will book not turn up and don't want to pay.*

DYFYNIADAU I'W NODI | NOTABLE QUOTES

Y Gweithlu

- *Effaith yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar rolau rheoli uwch; ni ellir bob amser gael yr un cynnydd.*
- *Hyfforddiant gorfodol am ddim.*
- *Mae'r swydd wedi newid, oes mae angen i ni gael ein cydnabod fel pobl gymwys i ofalu am blant ar ôl oriau ysgol. Oes, mae angen i ni sicrhau bod gennym y cymwysterau cywir.*
- *Ar hyn o bryd mae'n cymryd dros 2 flynedd i gael rhywun i gymhwyso ar L3 ac mae'n cymryd dros 20 awr o fentora i gael cymhwyster L2. Rydym yn ail swydd i staff achlysurol ac mae hyn yn rhwystr enfawr i recriwtio ac felly twf.*
- *Mae peidio â derbyn Athrawon a Chynorthwyyr Dysgu cymwysedig fel rhan o gymwysterau ar gyfer gweithio mewn clwb gwyliau yn niweidiol i recriwtio. Dyma'r staff sydd ar gael yn ystod y gwyliau ac sy'n darparu gofal o ansawdd rhagorol oherwydd eu hyfforddiant mewn ysgolion. Mae ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd i ymdrin â'r nifer cynyddol o blant ag ADY o fewn y lleoliad.*
- *Rydym wedi bod yn hysbysebu am Uwch Weithiwr Chwarae Lefel 3 ond wedi methu â recriwtio. Nid oedd gennym unrhyw ymgeiswyr.*

Workforce

- *Impact of the National Minimum Wage on more senior management roles can't always get the same increase.*
- *Free mandatory training.*
- *The job has changed , yes we need to be recognised as being qualified people to care for children after school . Yes we need to make sure we hold the correct qualifications.*
- *At present it takes over 2 years to get someone L3 qualified and it takes over 20 hours of mentored delivery to get L2 qualified we are a second job for casual staff this is a huge barrier to recruitment and therefore growth.*
- *Not accepting qualified Teachers and TA's as part of qualifications for working within a holiday club is detrimental to recruitment. These are the staff that are available during holiday periods and provide excellent quality care due to their training within schools. They have the knowledge and expertise at dealing with the increasing number of children with ALN within the setting.*
- *We have been advertising for Level 3 Senior Play Worker but have been unable to recruit. We had no applicants.*

DYFYNIADAU I'W NODI | NOTABLE QUOTES

Anghenion y Plant

- *Ers Covid rydym wedi sylwi ar newid yn nemograffeg y plant sy'n mynychu. Rydym bellach yn darparu ar gyfer mwy o rai dan 8 oed a llawer llai o rai dros 8 oed. Ac mae gan fwy o'r plant broblemau ymddygiad, neu anghenion ychwanegol.*
- *Rwy'n meddwl bod angen mwy o gefnogaeth i blant ag ADY fynychu clybiau ar ôl ysgol os ydynt yn cael cefnogaeth yn y dosbarth pam nad yw'r gefnogaeth yn parhau yn y clwb ar ôl ysgol mae cymaint o anghydraddoldebau o fewn y system nad yw'n gynhwysol i bawb.*
- *Cymorth gyda chefnogaeth 1:1 i blant ag anghenion ychwanegol. Mae ein staff yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd.*
- *Mae staff yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion pawb sy'n mynychu. Mae yna blant ag Anghenion Ychwanegol. Disgwylir i ni weithio i gymhareb 1:8, pan fydd yn amlwg bod angen cymorth arnynt. Wedi gofyn i'r Awdurdod Lleol ac maen nhw'n dweud nad oes cymorth ar gael.*

Children's Needs

- *Since Covid we have noticed a change in the demographic of the children attending. We are now catering for more under 8's and far fewer over 8's. And more of the children have behaviour issues, or additional needs.*
- *I think there needs to be more support for children with ALN to attend after school clubs if they are provided with support in the classroom why is the support not continued in after school club there is so many inequalities within the system which isn't inclusive for all.*
- *Assistance for 1:1 support for children with additional needs. Our staff are currently struggling.*
- *Staff are struggling to meet the needs of everyone who attends. There are children with AN. We are expected to work to ratio 1:8, when clearly they need support. Have asked the LA & they say there's no assistance available.*

Cefnogaeth

- *Mae ein Swyddog Datblygu yn gefnogaeth anhygoel i'n clybiau, hebddi, ni fyddem yn gallu rhedeg i'n llawn botensial, mae ei chynghor parhaus, ei chefnogaeth a'i harweiniad yn cael ei werthfawrogi'n fawr.*
- *Yn rhoi gwerth mawr ar fod yn aelod o Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs a'r gefnogaeth a ddarperir.*
- *Mae Rachel wedi bod yn gefnogaeth enfawr i ni sefydlu ein clwb newydd, mae'r gefnogaeth farchnata rydym wedi ei dderbyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr gan fod niferoedd yn cynyddu'n araf ond yn sicr.*
- *Heb yr hyfforddiant Gwaith Chwarae a'r bwrsariaethau i gefnogi'r staff i ddilyn yr hyfforddiant, a ariennir drwy brosiect CYMell, ni fyddem wedi gallu fforddio rhoi cymaint o'n staff trwy hyfforddiant ag sydd gennym i gwrdd â gofynion AGC. Felly ni fyddem wedi gallu derbyn cymaint o blant ag yr ydym, ar draws llawer o'n lleoliadau Clwb Carco ond yn enwedig Pwll Coch. Ni fyddai gennym lawer o leoedd gofal plant cofrestredig lle gall rhieni gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant.*
- *Rydym wedi cael pecynnau cymorth defnyddiol iawn i weithio drwyddynt ac mae cyngor a gwybodaeth Sian wedi bod yn amhrisiadwy.*

Support

- *Our Development Officer is an amazing support to our clubs, without her we wouldn't be able to run to our full potential, her continued advice, support & guidance is very much valued.*
- *Valuable being a member of Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs and the support provided.*
- *Rachel has been a massive support to us setting up our new club, the marketing support we have received has made a huge difference as numbers are increasing slowly but surely.*
- *Without the Playwork training and bursaries to support the staff to undergo the training, funded through the CYMell project, we would not have been able to afford to put as many of our staff through training as we have to meet the requirements of CIW. Therefore we would not have been able to accept as many children as we do, across many of our Clwb Carco settings but particularly Pwll Coch. We would not have had as many registered childcare places where parents can access TFC and the Childcare Offer.*
- *We have been given really useful toolkits to work through and Sian's advice and knowledge has been invaluable.*




Cyhoeddwyd Mai 2025
Published May 2025



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436
Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW



Social Links
Dolenni Cymdeithasol